

662 Ymgrymwn, Arglwydd, ger dy allor lân

Ymgrymwn, Arglwydd, ger dy allor lân
 i ddeisyf bendith ar yr oedfa hon;
 O tyred atom yn dy fedydd tân
 i buro'n natur a chynhesu'n bron.

Datguddia inni werth ysbrydol dras
 wrth gydaddoli'n deulu yn gytûn;
 ein deisyfiadau clyw, pâr deimlo'r ias
 syn brawf o'th bresenoldeb di dy hun.

Yn nŵr y bedydd gwelwn ddarlun byw
 o galon Tad a'i feddwl am ei blant
 a'r ffynnon o drugaredd sydd yn Nuw
 a'i dyfroedd iach yn disychedu'r sant.

Doed gras ein Harglwydd Iesu Grist yn hael
 a chariad Duw l'n plith drwy'r ordinhad,
 a doed yr Ysbryd Glân i gannu'r gwael,
 y Tri yn Un i'n hawlio'n ddiacâd.

D. HUGHES JONES